

Robert JT Williams
Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 02920 82 3235
Ebost: Robert.jt.williams@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

16 Rhagfyr 2011

PARTHED: RHOI GWYBOD AM NEWIDIADAU YN Y MYNEGAI ANSAWDD AER

Gofynnodd Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i'r Pwyllgor ar Effeithiau Meddygol Llygryddion Aer (COMEAP) i adolygu'r Mynegai Answadd Aer er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddiben, o ystyried y datblygiadau ym maes answadd aer. Mae'r mynegai presennol wedi bod yn cael ei ddefnyddio am gyfnod o ryw 12 mlynedd. Ym Mehefin 2011, cyhoeddodd Pwyllgor COMEAP yr adolygiad o fynegai answadd aer y DU. Mae Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig wedi ystyried argymhellion yr adroddiad ac am newid sawl peth, ar ôl ymgynghori â defnyddwyr y mynegai. Isod, nodir manylion y mynegai newydd, a gaiff ei ailenwi'n Fynegai Answadd Aer Dyddiol (DAQI).

Dyma'r newidiadau i'r mynegai:

1. Cyngor iechyd rheolaidd i gyd-fynd â'r Mynegai Dyddiol i roi gwybodaeth gliriach, fwy penodol. Mae tair rhan i'r mynegai newydd ac mae'n cynnwys cyngor ychwanegol ar gyfer unigolion sy'n arbennig o agored i niwed, ynghyd â chyngor ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol:
 - A. Cyfarwyddiadau ar ddefnyddio'r mynegai;**
 - B. Effeithiau iechyd llygredd aer yn y tymor byr a chamau y gellir eu cymryd i leihau'r effeithiau;**
 - C. Cyngor iechyd ar gyfer pob band i gyd-fynd â'r mynegai answadd aer.**
2. Newidiadau i fandiau'r mynegai (Isel, Cymhedrol, Uchel, Uchel lawn) ar gyfer deunydd gronynnol (PM_{10}), nitrogen deuocsid (NO_2), a'r osôn (O_3) i'w gwneud yn fwy llym. Gweler Tabl 1 i weld y ffigurau. Cofiwch fod y bandiau ar gyfer yr osôn ychydig yn wahanol i'r hyn a argymhellir gan Bwyllgor COMEAP;
3. Cynnwys deunydd gronynnol mân ($PM_{2.5}$) yn y Mynegai Dyddiol;
4. Peidio â chynnwys carbon monocsid (CO) yn y Mynegai Dyddiol yng ngoleuni'r gostyngiad dramatig yn CO yr awyr agored;

5. Newidiadau i sut cyflwynir y mynegai, i fod yn raddfa 10 pwynt gyda phedwar band - Isel, Cymhedrol, Uchel ac Uchel lawn - a chodau lliw i helpu i ddehongli'r Mynegai Dyddiol. Gweler Tabl 1;
6. Cynnwys gwerthoedd 'tynnu sylw' i'w gwneud yn bosibl rhagweld cyfnodau o lygredd aer gwaeth wrth iddynt ddatblygu. Gydag amserau cyfartaledd¹ o 24 awr yn achos deunydd gronynnol ac 8 awr yn achos yr osôn, nid yw'n bosibl rhoi gwybodaeth gyhoeddus am achos annisgwyl o lygredd nes ei fod wedi digwydd. Mae gwerthoedd 'tynnu sylw' wedi'u creu i rybuddio'r cyhoedd cyn i lygredd gyrraedd eu haer, a rhoi gwybodaeth am hynt achos 'Cymhedrol', 'Uchel, neu 'Uchel lawn'. Gall y gwerthoedd 'tynnu sylw' hyn fod o ddefnydd i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau gwybodaeth i'r cyhoedd. Caiff gwybodaeth bellach am hyn ei rhannu'n nes ymlaen;
7. Caiff dolenni i effeithiau iechyd hirdymor llygredd aer eu cynnwys gyda'r mynegai, yn nodi mai dim ond effeithiau iechyd lefelau uwch tymor byr y mae'r Mynegai Dyddiol yn delio â hwy.

Rydym yn argymhell bod gwasanaethau gwybodaeth gyhoeddus sy'n defnyddio'r Mynegai Ansawdd Aer Dyddiol yn rhoi'r newidiadau hyn ar waith. Bydd Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn gweithredu'r newidiadau hyn mewn gwasanaethau gwybodaeth ansawdd aer cenedlaethol o 1 Ionawr 2012.

Camau gweithredu i ddarparwyr gwybodaeth:

- Diweddarau trothwyon llygryddion y bandiau presennol (O₃, CO, SO₂, NO₂ a PM₁₀) a'r diffiniad o'r cyfrifiadau ystadegol. Yn achos yr osôn a PM₁₀ bydd hyn yn golygu newid y cyfnodau cyfartaledd ar gyfer y bandiau yn ogystal â'r trothwyon.
- Ychwanegu bandiau newydd a chyfrifiadau ystadegol ar gyfer PM_{2.5}.
- Newid fformat bwletinau ar ansawdd aer a dulliau eraill o ddarparu gwybodaeth i gynnwys PM_{2.5} a gollwng CO.
- Diweddarau meddalwedd ar gyfer unrhyw grynodedb data a chrynodedb rhanbarthol lle nodir y "llygrydd gwaethaf", i gynnwys PM_{2.5} a chael gwared â CO.
- Diweddarau unrhyw dablau a thudalennau ar eich gwefan sy'n rhoi gwybodaeth am y bandiau, yn benodol i ddiweddarau'r wybodaeth am iechyd.
- Ychwanegu'r cyfrifiadau a chyflwyno Gwerthoedd 'Tynnu Sylw' (cewch fwy o wybodaeth am werthoedd 'tynnu sylw' maes o law).

Mae mwy o wybodaeth am ansawdd aer, gan gynnwys lefelau llygredd aer nawr a'r lefelau a ragwelir yn www.welshairquality.co.uk a <http://uk-air.defra.gov.uk>. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Mynegai Ansawdd Aer Dyddiol, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Yn gywir,

Robert JT Williams
Pennaeth Ymbelydredd ac Atal Llygredd

¹ Yr amser cyfartaledd yw'r cyfnod a ddefnyddir i ddelio ag amrywiadau tymor byr yn lefel llygryddion yn yr aer. Mae hyn yn wahanol o un llygrydd i'r llall gan adlewyrchu dwy agwedd ar y dystiolaeth ar effeithiau iechyd; yn gyntaf, yr amser y gallai gymryd i effeithio ar iechyd ac, yn ail, yr amser cyfartaledd a ddefnyddir yn yr astudiaethau y mae'r asesiad yn seiliedig arno.

Mynegai Ansawdd Aer Dyddiol

Mae manylion bandiau newydd y Mynegai Ansawdd Aer Dyddiol yn Nhabl 1.

Band	Mynegai	Osôn	Nitrogen Deuocsid	Sylffwr Deuocsid	Gronynnau PM _{2.5}	Gronynnau PM ₁₀
		Cymedr 8 awr	Cymedr awr	Cymedr 15 munud	Cymedr 24 awr	Cymedr 24 awr
		µgm ⁻³	µgm ⁻³	µgm ⁻³	µgm ⁻³	µgm ⁻³
ISEL						
	1	0-33	0-66	0-88	0-11	0-16
	2	34-65	67-133	89-176	12-23	17-33
	3	66-99	134-199	177-265	24-34	34-49
CYMHEDROL						
	4	100-120	200-267	266-354	35-41	50-58
	5	121-140	268-334	355-442	42-46	59-66
	6	141-159	335-399	443-531	47-52	67-74
UCHEL						
	7	160-187	400-467	532-708	53-58	75-83
	8	188-213	468-534	709-886	59-64	84-91
	9	214-239	535-599	887-1063	65-69	92-99
UCHEL IAWN						
	10	240 neu fwy	600 neu fwy	1064 neu fwy	70 neu fwy	100 neu fwy

Tabl 1: Bandiau'r Mynegai Ansawdd Aer Dyddiol

Mae tair rhan i'r mynegai newydd ac mae'n cynnwys cyngor ychwanegol ar gyfer unigolion sy'n arbennig o agored i niwed, ynghyd â chyngor ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol:

- A. Cyfarwyddiadau ar ddefnyddio'r mynegai;**
- B. Effeithiau iechyd llygredd aer yn y tymor byr a chamau y gellir eu cymryd i leihau'r effeithiau;**
- C. Cyngor iechyd ar gyfer pob band i gyd-fynd â'r mynegai ansawdd aer.**

Mae'r manylion isod:

A: SUT I DDEFNYDDIO'R MYNEGAI ANSAWDD AER DYDDIOL

Cam 1: Penderfynu a ydych chi (neu eich plant) yn debygol o fod mewn perygl yn sgil llygredd aer. Mae gwybodaeth am grwpiau a allai fod mewn perygl ar y dudalen 'Gwybodaeth ychwanegol am effeithiau llygredd aer'. Efallai y bydd eich meddyg yn gallu rhoi cyngor ichi hefyd.

Cam 2: Os gallech fod mewn perygl, ac yn cynllunio gweithgarwch egniol yn yr awyr agored, cymerwch gip ar y rhagolygon llygredd aer.

Cam 3: Defnyddiwch y negeseuon iechyd sy'n cyfateb â'r lefel rhagolygon llygredd uchaf fel canllaw.

B: GWYBODAETH YCHWANEGOL AM EFFEITHIAU TYMOR BYR LLYGREDD AER

Mae'r Mynegai Ansawdd Aer Dyddiol wedi'i ddatblygu i roi cyngor ar y lefelau llygredd aer disgwylidig. Yn ogystal, rhoddir gwybodaeth am effeithiau tymor byr ar iechyd ar lefel bandiau gwahanol y mynegai (Isel, Cymhedrol, Uchel, Uchel lawn). Mae'n bosibl y gallai unigolion sensitif iawn ddiodeff problemau iechyd hyd yn oed ar ddyddiau llygredd aer Isel. Mae'r cyngor hwn yn berthnasol i unrhyw un sy'n diodeff symptomau yn sgil llygredd aer.

Effeithiau llygredd aer ar iechyd yn y tymor byr

Mae llygredd aer yn effeithio ar iechyd mewn pob math o ffyrdd. Ond yn y DU nid yw llygredd aer yn codi i lefelau sy'n golygu bod angen i bobl wneud newidiadau mawr i'w bywyd i osgoi dod i gysylltiad â'r aer; does dim angen i unrhyw un fod ag ofn mynd allan.

Oedolion a Phlant sydd â chyflwr ar yr ysgyfaint neu'r galon – Fel mae pawb yn gwybod, pan fydd lefelau llygryddion aer yn codi, mae oedolion sydd â chyflwr ar y galon, ac oedolion a phlant sydd â chyflwr ar yr ysgyfaint, mewn perygl mwy o fynd yn sâl a bod angen triniaeth arnynt. Dim ond ar leiafrif o'r rheini sydd â chyflwr fel hyn y mae llygredd aer yn debygol o effeithio, ac nid yw'n bosibl rhagweld pwy fyddant hwy. Mae rhai pobl yn ymwybodol bod llygredd aer yn effeithio ar eu hiechyd: efallai y bydd oedolion a phlant ag asthma yn sylwi bod angen iddynt ddefnyddio eu hanadlydd yn fwy ar y dyddiau hynny pan fydd lefelau llygredd aer yn uwch na'r cyffredin.

Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o ddiodeff o gyflwr ar y galon a'r ysgyfaint na phobl ifanc, ac felly mae'n gwneud synnwyr iddynt fod yn ymwybodol o lefelau llygredd aer.

Y boblogaeth yn gyffredinol – Ar adegau pan fydd lefelau llygredd aer yn Uchel lawn, efallai y bydd hyd yn oed pobl iach yn diodeff dolur gwddf neu wddf sych, llygaid poenus neu beswch.

Nid oes angen cadw plant gartref o'r ysgol na'u cadw rhag cymryd rhan mewn gêm. Mae'n bosibl y bydd plant ag asthma yn sylwi bod angen iddynt ddefnyddio eu hanadlydd yn fwy ar y dyddiau hynny pan fydd lefelau llygredd aer yn uwch na'r cyffredin.

Camau i'w cymryd

Pan fydd lefelau llygredd aer yn cynyddu, byddai'n synhwyrol i'r rheini sydd wedi sylwi bod hyn yn effeithio arnynt geisio osgoi dod i gysylltiad â'r llygryddion yn yr aer. Nid yw hyn yn golygu aros y tu mewn, ond byddai gwneud llai o ymarfer corff y tu allan yn rhesymol.

Dylai pobl hŷn a phobl â chyflwr ar y galon a'r ysgyfaint osgoi ymarfer corff ar ddyddiau llygredd Uchel.

Dylai oedolion a phlant ag asthma wneud yn siwr eu bod yn dilyn canllawiau eu hymarferydd iechyd o ran eu meddyginiaeth ac mae'n bosibl y sylwnt bod angen iddynt ddefnyddio'u hanadlydd yn fwy.

Ni ddylai oedolion â chyflwr ar y galon neu ar gylchrediad eu gwaed addasu eu meddyginiaeth ar sail cyngor y mynegai ansawdd aer: dim ond ar gyngor ymarferydd iechyd y dylid ei addasu.

Mae'n bosibl y bydd rhai athletwyr, hyd yn oed os nad ydynt yn diodeff o asthma, yn sylwi nad ydynt yn perfformio cystal â'r disgwyl pan fydd lefelau llygrydd aer penodol (osôn ar lefel y ddaear) yn Uchel, ac mae'n

bosibl y sylwnt bod anadlu'n ddwfn yn anghysurus ar y frest: mae hyn yn gallu digwydd yn ystod yr haf ar ddyddiau pan fydd lefelau'r osôn ar lefel y ddaear yn uwch. Nid yw hyn yn golygu eu bod mewn perygl ond byddai'n synhwyrol iddynt wneud llai o ymarfer corff ar ddyddiau fel hyn.

C: CYNGOR IECHYD I GYD-FYND Â'R MYNEGAI ANSAWDD AER DYDDIOL

Bandiau llygredd aer	Gwerth	Negeseuon iechyd eraill i grwpiau sydd mewn perygl a'r boblogaeth yn gyffredinol	
		Unigolion sydd mewn perygl *	Y boblogaeth yn gyffredinol
Isel	1 – 3	Mwynhewch eich gweithgareddau awyr agored arferol.	Mwynhewch eich gweithgareddau awyr agored arferol.
Cymhedrol	4 – 6	Dylai oedolion a phlant sydd â phroblemau ar yr ysgyfaint, ac oedolion sydd â phroblemau ar y galon, sy'n dioddef symptomau, ystyried gwneud llai o ymarfer corff egnïol, yn enwedig y tu allan.	Mwynhewch eich gweithgareddau awyr agored arferol.
Uchel	7-9	Dylai oedolion a phlant sydd â phroblemau ar yr ysgyfaint, ac oedolion sydd â phroblemau ar y galon wneud llai o ymarfer corff egnïol, yn enwedig y tu allan, ac yn enwedig os ydynt yn dioddef symptomau. Efallai y bydd pobl ag asthma yn gweld bod angen iddynt ddefnyddio eu hanadlydd yn amlach. Dylai pobl hŷn wneud llai o ymarfer corff hefyd.	Dylai unrhyw un sy'n dioddef anghysur fel llygaid poenus, peswch neu ddolur gwddf ystyried gwneud llai o ymarfer corff, yn enwedig y tu allan.
Uchel iawn	10	Dylai oedolion a phlant sydd â phroblemau ar yr ysgyfaint, oedolion sydd â phroblemau ar y galon, a phobl hŷn, osgoi gwneud ymarfer corff egnïol. Efallai y bydd pobl ag asthma yn gweld bod angen iddynt ddefnyddio eu hanadlydd yn amlach.	Gwnewch lai o ymarfer corff, yn enwedig y tu allan, ac yn enwedig os ydych yn dioddef symptomau fel peswch neu ddolur gwddf.

* Mae oedolion a phlant sydd â phroblemau ar y galon neu'r ysgyfaint yn fwy tebygol o ddiodeff symptomau. Dilynwch gyngor arferol eich meddyg am ymarfer corff a rheoli eich cyflwr. Efallai y bydd hyd yn oed dyddiau llygredd aer Isel yn effeithio ar iechyd unigolion sensitif iawn. Dylai unrhyw un sy'n dioddef symptomau ddilyn y canllawiau yn adran B.

Cwestiynau ac atebion ar y Mynegai Ansawdd Aer

1. Beth yw'r Mynegai Ansawdd Aer?

Defnyddir y mynegai ansawdd aer i gyfathrebu gwybodaeth am lefelau llygredd aer y tu allan nawr a lefelau a ragwelir yn y tymor byr. Mae'r mynegai yn defnyddio graddfa 1-10 wedi'i rhannu'n bedwar band ('Isel', 'Cymhedrol', 'Uchel' ac 'Uchel lawn') i roi mwy o fanylion am lefelau llygredd aer mewn ffordd syml, yn debyg i fynegai'r haul neu'r mynegai paill. Y prif lygryddion a nodir yw deunydd gronynnol, yr osôn, sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid a charbon monocsid.

2. At ba ddiben y defnyddir y Mynegai?

Caiff gwybodaeth am ansawdd aer ei gyfathrebu ac mae'n rhoi rhybudd am lygredd aer a allai achosi niwed i iechyd yn y tymor byr. O gael rhybudd am ansawdd aer gwael, rhoddir cyfle i unigolion sy'n arbennig o agored i effeithiau llygredd aer, er enghraifft pobl â chyflwr sy'n effeithio ar eu system anadlu neu gardiofasgwlaidd, reoli eu cyflwr a lleihau'r symptomau.

3. Pwy sy'n defnyddio'r Mynegai?

Bydd unigolion a chyrrff sydd eisiau gwybod pa mor dda neu wael yw'r aer yn edrych ar wybodaeth y mynegai. Mae Defra, awdurdodau lleol, a Phrifysgolion yn defnyddio'r mynegai i gyfathrebu gwybodaeth am ansawdd yr aer, er enghraifft gweler:

- <http://uk-air.defra.gov.uk/air-pollution/bandings>
- <http://www.airtext.info/>
- <http://www.londonair.org.uk/london/asp/nowcast.asp>

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn defnyddio gwefan ansawdd aer Cymru www.welshairquality.co.uk a gaiff ei haddasu i adlewyrchu'r newidiadau yn y cyngor iechyd sy'n gysylltiedig â'r broses o adolygu bandiau'r mynegai ansawdd aer.

4. Sut cafodd y Mynegai ei ddatblygu?

Datblygwyd y mynegai gan y Pwyllgor ar Effeithiau Meddygol Llygryddion Aer (COMEAP) ac mae'n seiliedig ar y dystiolaeth iechyd ddiweddaraf sydd ar gael. Mae'r bandiau 'Isel' yn dynodi lefelau llygredd aer sy'n annhebygol o beri i unrhyw un ddiodeff effeithiau andwyol yn sgil dod i gysylltiad â'r aer yn y tymor byr, gan gynnwys pobl â chyflwr ar yr ysgyfaint neu'r galon a allai fod yn fwy agored i effeithiau llygredd aer. Mae'r band 'Cymhedrol' yn cynrychioli lefelau llygryddion aer sy'n debygol o effeithio ychydig ar bobl sy'n arbennig o agored iddynt. Mae gwerthoedd y bandiau 'Uchel' yn gysylltiedig ag effeithiau sylweddol mewn pobl sy'n agored iddynt. Pan fydd lefelau 'Uchel lawn' o lygredd yn yr aer, mae'n bosibl y bydd unigolion iach hyd yn oed yn diodeff effeithiau andwyol yn sgil dod i gysylltiad tymor byr â'r aer.

Ym Mehefin 2011, adolygodd Pwyllgor COMEAP y mynegai gan gyhoeddi adolygiad o fynegai ansawdd aer y DU. Gweler <http://comeap.org.uk/documents/reports/130-review-of-the-uk-air-quality-index.html>

5. Pam adolygu'r Mynegai?

Gofynnodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) i'r Pwyllgor ar Effeithiau Meddygol Llygryddion Aer adolygu mynegai ansawdd aer y DU i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcan. Bellach, mae mynegai ansawdd aer y DU wedi bod yn cael ei ddefnyddio am gyfnod o ryw 12 mlynedd. Roedd yn briodol, felly, adolygu'r mynegai i wneud yn siwr ei fod yn addas, o ystyried y datblygiadau a welwyd ym maes ansawdd aer.

6. Pam mae Defra wedi mabwysiadu canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd o ran yr osôn yn hytrach na chynghor Pwyllgor COMEAP?

Asesodd Pwyllgor COMEAP y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf a rhoi ei argymhellion i Defra. Gwerthusodd Defra yr argymhellion mewn cyd-destun ehangach, gan roi ystyriaeth i ffactorau eraill, gan gynnwys pwrpas y mynegai a'i ddefnyddwyr, i sicrhau ein bod yn rhoi canllawiau priodol i'r cyhoedd ar lefelau llygredd aer o ddydd i ddydd, a gwybodaeth am y camau y gall unigolion eu cymryd i leihau'r effeithiau ar eu hiechyd.

Bydd Defra yn mabwysiadu torbwynt Isel/Cymhedrol o $100 \mu\text{g m}^{-3}$ ar gyfer yr osôn. Argymhellodd Pwyllgor COMEAP $80 \mu\text{g m}^{-3}$ fel torbwynt rhwng y band Isel a Chymhedrol. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn argymhell canllaw o $100 \mu\text{g m}^{-3}$ ond nododd y gellid disgwyl rhai effeithiau mewn unigolion sy'n agored i niwed ar y lefel hon, ac oherwydd hyn argymhellodd Pwyllgor COMEAP y torbwynt is, sef $80 \mu\text{g m}^{-3}$. Fodd bynnag, mae $80 \mu\text{g m}^{-3}$ yn agos i'r lefel osôn cefndir hemisfferig ac mae'n debygol y bydd y lefel hon yn uwch fel rheol yn y DU (hyd at 80% o ddyddiau mewn blwyddyn) ac mewn mannau eraill, a chât llygredd aer ei ddisgrifio'n Gymhedrol fel rheol.

Fel rhan o'r adolygiad, cynhaliwyd ymchwil ymhlith cwsmeriaid i gael gwybod sut mae pobl yn dehongli gwybodaeth am ansawdd aer, a sut gellid gwella'r ddarpariaeth gwybodaeth am ansawdd aer. Yn sgil yr ymchwil, nodwyd yr hoffai defnyddwyr weld mwy o amrywiaeth yn y lefelau llygredd aer a gofnodir. Mae canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd yn darparu ar gyfer mwy o amrywiaeth yn nifer y dyddiau llygredd aer Isel a Chymhedrol.

Os cofnodir llygredd aer Cymhedrol fel rheol, yna bydd pwysigrwydd negeseuon sy'n rhybuddio bod llygredd aer yn waeth yn cael ei golli. Dangoswyd hyn gan Airtext (gwasanaeth yn Llundain sy'n rhoi gwybodaeth am llygredd aer drwy neges-destun, <http://www.airtext.info/>) yn ystod y cyfnod llygredd Uchel ym mis Ebrill 2011. Collodd Airtext danysgrifwyr i'r gwasanaeth a oedd yn cael llawer gormod o negeseuon.

Bydd Defra yn parhau i gyflwyno mesurau i wella ansawdd aer. Er mwyn gostwng lefelau osôn cefndir hemisfferig, bydd yn rhaid gweithredu ar lefel fyd-eang, gan ei fod yn llygrydd sy'n croesi ffiniau gwledydd.

7. Pryd caiff y Mynegai ei newid?

Caiff ei newid ar 1 Ionawr 2012.

8. Bydd mwy o ddyddiau llygredd aer cymhedrol ac uwch yn cael eu cofnodi yn y Mynegai diwygiedig. Ydy hyn yn golygu bod llygredd aer yn gwaethygu?

Efallai y bydd yn ymddangos bod llygredd aer yn gwaethygu gan y cofnodir mwy o ddyddiau cymhedrol ac uwch. Nid yw hyn yn wir, fodd bynnag. Mae'r mynegai diwygiedig yn adlewyrchu'r dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf ac yn cywiro'r tanamcan blaenorol o effeithiau dod i gysylltiad â llygredd aer yn y tymor byr. Bydd y newidiadau i'r mynegai yn caniatáu i unigolion sy'n agored i effeithiau llygredd aer reoli eu cyflwr. Nid yw hyn yn golygu bod lefelau llygredd aer yn cynyddu.